# Cyllidebau Carbon

Hysbysiad Hwylus

Awst 2014

## Cyflwyniad

**Mae'r newid yn yr hinsawdd yn fater datganoledig**. Er hynny, mae sut yr eir i'r afael â hyn hefyd yn cael ei ddylanwadu gan ddeddfwriaeth a pholisi yr UE a'r DU. Ar lefel yr UE, mae'r targed yn cynnwys lleihad o 20% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2020 o gymharu â lefelau 1990. **Mae Llywodraeth y DU wedi pennu targed i leihau allyriadau carbon y DU o leiaf 34% erbyn 2020 ac 80% erbyn 2050**. Amlinellir targed 2050 yn *Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008*[1] ac mae'n cyd-fynd â chyfraniad y DU i gyfyngu ar y cynnydd yn nhymeredd y byd i gyn lleied â phosibl uwchben 2°C.

Er mwyn monitro cynnydd y DU tuag at y nod hirdymor hwn, **mae system o gyllidebau carbon pum mlynedd wedi'i rhoi ar waith**. Mae'r camau hyn yn cyfyngu ar gyfanswm y nwyon tŷ gwydr y gall y DU eu hallyrru ym mhob cyfnod ac yn gosod meincnod ar gyfer cyrraedd targed 2050.

Er nad yw *Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008* yn pennu targedau penodol ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig, mae'n ei gwneud yn ddyletswydd arnynt i gyfrannu at y nod hirdymor hwn i leihau allyriadau. Mae llywodraethau'r gweinyddiaethau datganoledig wedi mabwysiadu polisïau gwahanol ar gyfer lleihau allyriadau, yn ogystal â strategaethau gwahanol ar gyfer monitro eu cynnydd tuag at y targedau allyriadau. Er bod rhai o'r strategaethau hyn yn debyg i gyllidebau carbon (e.e. yr Alban), nid yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio targedau statudol na chyllidebau carbon.

## Fframwaith ar gyfer lleihau carbon

### Y newid yn yr hinsawdd

Mae'r Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd wedi dod i'r casgliad y gellir cyfyngu ar risgiau cyffredinol y newid yn yr hinsawdd drwy leihau allyriadau carbon a chyfyngu ar gyfradd a maint y newid yn yr hinsawdd[2]. I gydnabod hyn, sefydlodd Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 fframwaith lleihau carbon gyda'r nod o sicrhau bod y DU yn cyfrannu at y cytundeb rhyngwladol ar y cyd i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, fel y sefydlwyd o dan Brotocol Kyoto.

Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ("y Pwyllgor") - corff annibynnol statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 - yn ystyried y bydd cynnydd o dros 2°C yn nhymheredd cyfartalog y byd yn debygol o

[1] ***Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008*** [fel ar 30 Mai 2014]

[2] Y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (2014) ***Climate Change 2014: Impacts, Adaptation, and Vulnerability: Working Group II Contribution to AR5 (crynodeb ar gyfer y llunwyr polisi)***. Y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales
Y Gwasanaeth Ymchwil

gael goblygiadau peryglus[3]. O ganlyniad i hyn, mae'n argymell cyfyngu ar y cynnydd yn nhymheredd y byd i 2°C yn uwch na'r lefelau cyn-ddiwydiannol. Er mwyn cyflawni hyn, byddai'n rhaid i allyriadau nwyon tŷ gwydr gyrraedd eu huchafbwynt erbyn 2020 a chael eu hanneru erbyn 2050[4].

Yn ôl adroddiad gan y Pwyllgor[5], ar ôl caniatáu ar gyfer twf amcangyfrifedig yn y boblogaeth, bydd yn rhaid i'r DU leihau ei hallyriadau nwyon tŷ gwydr 80% yn 2050 o gymharu â lefelau 1990 er mwyn bodloni ei rhwymedigaethau rhyngwladol o ran y newid yn yr hinsawdd[6]. Mae Rhan 1 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn sicrhau bod y DU yn gyfreithiol-rwymol i'r targed hwn yn ogystal â nifer o gyllidebau carbon pum mlynedd, sy'n sicrhau y caiff cynnydd rheolaidd ei wneud tuag at y targed cyffredinol. Yn sgil y Ddeddf, y DU oedd y wlad gyntaf yn y byd i gael fframwaith hirdymor a oedd yn gyfreithiol-rwymol ar gyfer lleihau allyriadau. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau ar gyfer sancsiynau a chosbau os na chaiff y targedau o ran y gyllideb garbon eu cyrraedd.

### Cyllidebau carbon

Mae cyllidebau carbon yn cyfeirio at system lle caiff cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr dros gyfnod penodol o amser ei gyfyngu. Yn y DU, cyflwynodd Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 system ar gyfer cyllidebau carbon lle caiff terfyn ei roi ar gyfanswm yr allyriadau dros gyfnod o bum mlynedd.

Caiff cyllidebau carbon eu mesur mewn miliynau o dunelli o garbon deuocsid (CO2) a'i gyfatebol (MtCO2e), sef y dull metrig safonedig ar gyfer mesur ôl troed carbon. Mae hyn yn caniatáu i gyfanswm yr allyriadau o amrywiaeth o nwyon tŷ gwydr gael eu mynegi fel CO2 a fyddai'n arwain at yr un faint o gynhesu. Caiff y nwyon amrywiol eu troi'n lefel gyfatebol o CO2 gan ddefnyddio cymarebau safonol yn seiliedig ar eu potensial cynhesu byd-eang, sy'n disgrifio eu potensial cynhesu o gymharu â CO2.

Yn ôl y Pwyllgor, mae cyllidebau carbon yn adnodd monitro defnyddiol er mwyn sicrhau y caiff cynnydd rheolaidd ei wneud tuag at y targedau lleihau allyriadau hirdymor[7]. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried bod y rhagolygon ar gyfer yr hinsawdd yn y dyfodol yn seiliedig ar allyriadau cronnus ac, felly, nid dim ond lefel yr allyriadau mewn blwyddyn darged benodol sy'n bwysig[8]. At hynny, mae'r Pwyllgor yn nodi bod cyllidebau carbon yn darparu lefel o ddisgwyliadwyedd ar gyfer gwaith cynllunio busnesau o ran buddsoddi mewn economi carbon isel[9].

### Cyllidebau carbon yn neddfwriaeth y DU

Cafodd y tair cyllideb garbon gyntaf yn y DU eu pennu'n gyfreithiol ym mis Mai 2009, a'r bedwaredd ym mis Mehefin 2011[10]. Mae'r pedair cyllideb garbon hyn yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 2023 a 2027 (Tabl 1). Mae Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn ei gwneud yn ofynnol bod y cyllidebau carbon pum mlynedd yn cael eu pennu dair blynedd cyllideb ymlaen llaw fel ei bod bob amser yn glir beth fydd llwybr allyriadau'r DU ar gyfer y 15 mlynedd nesaf[11].

---

[3] Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, ***Setting a target for emission reduction***, (gwefan) [fel ar 2 Mehefin 2014]
[4] *ibid*
[5] Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (19 Gorffennaf 2010), ***Building a low carbon economy,*** [fel ar 30 Mehefin 2014]
[6] Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, ***Setting a target for emission reduction***, (gwefan) [fel ar 2 Mehefin 2014]
[7] Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, ***Carbon Budgets and targets***, (gwefan) [fel ar 27 Mehefin 2014]
[8] *ibid*
[9] *ibid*
[10] Llywodraeth y DU (2011), ***The Carbon Plan: Delivering our low carbon future***, [fel ar 30 Mai 2014]
[11] Llywodraeth y DU (2011), ***The Carbon Plan: Delivering our low carbon future***, [fel ar 30 Mai 2014]

Caiff pob cyllideb garbon ei rhannu i'r sector a fasnachir, sy'n seiliedig ar gyfran y DU o System Masnachu Allyriadau'r UE, a'r sector na fasnachir, sy'n cwmpasu popeth arall, gan gynnwys allyriadau o drafnidiaeth ffordd, amaethyddiaeth ac adeiladau.

**Tabl 1: Cyllideb garbon y DU a thargedau lleihau allyriadau ar gyfer y pedair cyllideb pum mlynedd gyntaf, fel y'u pennwyd yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008**

| | Y gyllideb garbon gyntaf (2008–12) | Yr ail gyllideb garbon (2013–17) | Y drydedd gyllideb garbon (2018–22) | Y bedwaredd gyllideb garbon (2023–27) |
|---|---|---|---|---|
| Lefel y gyllideb garbon (miliwn o dunelli o garbon deuocsid a'i gyfatebol (MtCO2e)) | 3,018 | 2,782 | 2,544 | 1,950 |
| Gostyngiad mewn canran yn is na lefelau'r flwyddyn sylfaen | 23% | 29% | 35% | 50% |

Ffynhonnell y data: *Llywodraeth y DU (2011), The Carbon Plan: Delivering our low carbon future*[12].

Pan sefydlwyd *Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008*, cytunwyd y byddai'r bedwaredd gyllideb garbon yn cael ei hadolygu yn 2014. Nododd y cytundeb y byddai'n rhaid i unrhyw newidiadau i'r gyllideb fod yn seiliedig ar gyngor gan y Pwyllgor, a dim ond o ganlyniad i newid sylweddol i'r drefn a oedd ar waith pan bennwyd y gyllideb yn wreiddiol y gellid gwneud unrhyw newidiadau.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adolygiad o'r bedwaredd gyllideb garbon mewn dwy ran ar 7 Tachwedd[13] ac 11 Rhagfyr 2013[14]. Yn ôl cyngor y Pwyllgor, nid oedd newid sylweddol wedi bod mewn amgylchiadau ac, felly, ni ddylai, ac ni allai'r, bedwaredd gyllideb garbon gael ei newid yn ôl telerau'r Ddeddf. Cyngor parhaus y Pwyllgor yw nad oes achos cyfreithiol nac achos economaidd dros lacio'r gyllideb ac os bydd Llywodraeth y DU am gyflawni ei hamcanion o ran yr UE, yna, mewn gwirionedd, bydd yn rhaid tynhau targedau'r bedwaredd gyllideb garbon. Nododd Llywodraeth y DU y byddai'n gwneud ei phenderfyniad ar y bedwaredd gyllideb garbon yn chwarter cyntaf 2014, ond nid oes penderfyniad wedi'i gyhoeddi eto. Fodd bynnag, mae Llywodraeth yr Alban wedi dweud ei bod yn cymeradwyo barn y Pwyllgor na ddylid llacio'r bedwaredd gyllideb garbon[15]. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud sylw ar y mater hyd yma.

[12] *ibid*
[13] Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, ***Fourth Carbon Budget Review – rhan 1***, 7 Tachwedd 2013, [fel ar 27 Mehefin 2014]
[14] Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, ***Fourth Carbon Budget Review – rhan 2***, 7 Tachwedd 2013, [fel ar 27 Mehefin 2014]
[15] Llywodraeth yr Alban, Datganiad i'r Wasg, ***UK carbon budget response***, 11 Rhagfyr 2013 [fel ar 27 Mehefin 2014]

## Cynnydd y DU

Cyrhaeddodd y DU darged y gyllideb garbon gyntaf ar gyfer 2008-12. Caiff y rhagolygon ar gyfer allyriadau CO2 y DU eu cyhoeddi gan Lywodraeth y DU ac maent yn seiliedig ar Fodel Ynni ac Allyriadau yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Yn ôl y model hwn, rhagwelir y bydd y DU hefyd yn cyrraedd y targedau ar gyfer yr ail a'r drydedd gyllideb[16]. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y dybiaeth na fydd polisi arall i leihau allyriadau, rhagwelir y bydd y DU yn methu targed y bedwaredd gyllideb garbon[17], gyda diffyg disgwyliedig o 205 MtCO2e yn y bedwaredd gyllideb garbon.

**Tabl 2: Allyriadau a ragwelir ar gyfer y DU o ran cyfnodau'r pedair gyllideb garbon**

| | Y gyllideb garbon gyntaf (2008-12) | Yr ail gyllideb garbon (2013-17) | Y drydedd gyllideb garbon (2018-22) | Y bedwaredd gyllideb garbon (2023-27) |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrif Carbon Net (MtCO2e) | 2,922 | 2,650 | 2,457 | 2,131 |
| Cyllideb Garbon (MtCO2e) | 3,018 | 2,782 | 2,544 | 1,950 |
| Diffyg (mae negatif yn golygu allyriadau o dan y gyllideb) | -96 | -132 | -87 | 181 |

Ffynhonnell y data: Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, Updated energy and emissions projections 2012[18].

Mae'r Pwyllgor wedi nodi er mwyn cyrraedd targedau'r dyfodol y bydd angen i'r DU leihau allyriadau ymhellach drwy fesurau carbon isel, gan fod y gostyngiadau blaenorol mewn allyriadau carbon yn bennaf oherwydd tywydd mwyn, prisiau tanwydd yn codi a'r dirwasgiad yn cyfrannu at ostyngiad mewn incwm real[19].

## Mesur allyriadau yng Nghymru

Mae targed 80% Llywodraeth y DU ar gyfer lleihau nwyon tŷ gwydr yn cynnwys allyriadau o'r gweinyddiaethau datganoledig, sy'n cyfrif am tua 20% o gyfanswm allyriadau'r DU[20]. Er bod y gweinyddiaethau datganoledig wedi'u cwmpasu gan *Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008*, **maent hefyd wedi cyflwyno eu polisïau eu hunain ar gyfer y newid yn yr hinsawdd**.

[16] Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, ***Updated energy and emissions projections 2012***, 2012 [fel ar 30 Mai 2014]
[17] *ibid*
[18] *ibid*
[19] Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, ***How is the UK progressing***, (gwefan) [fel ar 30 Mai 2014]
[20] Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, ***Y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd a rheoliadau'r DU***, (gwefan) [fel ar 2 Mehefin 2014]

**Nid oes gan Gymru system o gyllidebau carbon ar waith**. Yn hytrach, caiff y cynnydd tuag at dargedau lleihau allyriadau Cymru eu hasesu drwy gymharu lefel yr allyriadau mewn blwyddyn benodol â llinell sylfaen[21]. Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at leihau cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru 40% erbyn 2020[22]. At hynny, ei nod yw sicrhau lleihad o 3% y flwyddyn mewn allyriadau ym meysydd cymhwysedd a ddatganolwyd[23]. Mae'r arbedion o ran allyriadau sy'n ofynnol ar gyfer pob sector (e.e. trafnidiaeth, preswyl, amaethyddiaeth a defnyddio tir) er mwyn cyrraedd targed 2020 hefyd wedi'u pennu[24].

Mae'r targed 40% yn ymwneud â'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru ac mae'n cynnwys allyriadau'r sector a fasnachir[25]. Caiff cyfanswm yr allyriadau blynyddol eu cymharu â blwyddyn sylfaen a gyfrifir fel swm yr allyriadau ym 1990 ar gyfer CO2, methan ac ocsid nitraidd, ac ym 1995 ar gyfer nwyon wedi'u fflworeiddio. Er mwyn mesur perfformiad yn erbyn y targed 3%, caiff yr allyriadau o'r chwe phrif nwy tŷ gwydr ym mhob blwyddyn o 2011 ymlaen eu cymharu â llinell sylfaen, a ddiffinnir fel cyfartaledd yr allyriadau perthnasol rhwng 2006 a 2010.

Roedd adroddiad ar gynnydd Llywodraeth Cymru tuag at leihau allyriadau gan y Pwyllgor yn asesu pa mor addas oedd y targed blynyddol ar gyfer lleihau allyriadau, sef 3%[26]. Nododd yr adroddiad fod y fethodoleg yn briodol ond ei bod mewn perygl o greu tueddiadau camarweiniol am ei bod yn eithrio allyriadau a fasnachir yng Nghynllun Masnachu Gollyngiadau yr UE, ac felly mae'n bosibl i allyriadau gael eu symud y tu allan i'r targed. Roedd yr adroddiad hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ymestyn y targedau y tu hwnt i 2020, yn ogystal â deddfu targedau drwy gyflwyno cyllidebau carbon fel Llywodraeth y DU neu dargedau allyriadau blynyddol fel Llywodraeth yr Alban. Noda'r adroddiad fel a ganlyn:

> … statutory targets would provide certainty to policy-makers, businesses, investors, and wider society, and help to ensure that policies to meet targets are brought forward.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar 26 Mehefin 2014, dywedodd y Prif Weinidog nad oedd Llywodraeth Cymru yn ystyried newid y targed 40% er y byddai Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd[27] yn cael ei 'hadnewyddu' yn ystod y misoedd nesaf[28].

---

[21] Llywodraeth Cymru, ***Greenhouse Gas Emission Reduction Targets: An Analytical Method for Wales***, Mehefin 2013 [fel ar 3 Mehefin 2014]
[22] Llywodraeth Cymru, ***Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd***, Hydref 2010 [fel ar 2 Mehefin 2014]
[23] *ibid*
[24] Llywodraeth Cymru, ***Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleihau allyriadau: Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd***, Hydref 2010 [fel ar 1 Gorffennaf 2014]
[25] Llywodraeth Cymru, ***Greenhouse Gas Emission Reduction Targets: An Analytical Method for Wales***, Mehefin 2013 [fel ar 3 Mehefin 2014]
[26] Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, ***Progress on reducing emissions and preparing for climate change in Wales***, 15 Ionawr 2013 [fel ar 1 Gorffennaf 2014]
[27] Llywodraeth Cymru, ***Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd***, Hydref 2010 [fel ar 2 Mehefin 2014]
[28] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, ***Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2010***, 26 Mehefin 2014 [fel ar 16 Gorffennaf 2014]

O ran cyllidebau carbon, **dywedodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn amharod i gyflwyno cyllidebau carbon statudol** gan nad yw rheolaeth gyllidebol rhai sectorau allyriadau uchel, fel rheilffyrdd ac ynni, wedi'u datganoli'n llawn ac efallai na fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu cyrraedd y targedau'n effeithiol. At hynny, dywedodd y Prif Weinidog y gallai methu â bodloni'r cyllidebau carbon statudol o bosibl arwain at gosbau ariannol, ond na fyddai'n glir a fyddai Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU yn gyfrifol am unrhyw gosbau[29].

## Gweinyddiaethau datganoledig eraill

### Yr Alban

Cyflwynwyd Deddf Newid yn yr Hinsawdd (yr Alban) 2009[30] ar 4 Awst 2009 i nodi ymrwymiadau Llywodraeth yr Alban i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn pennu'r targed o leihau allyriadau 80% erbyn 2050, o gymharu â lefelau 1990, gyda tharged lleihau interim o 42% ar gyfer 2020[31]. Mae'r targedau ychwanegol yn cynnwys cynhyrchu cyfwerth â 100% o ddefnydd trydan blynyddol gros yr Alban drwy ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020 ac i ffynonellau adnewyddadwy ddarparu cyfwerth ag 11% o alw yr Alban am wres erbyn 2020[32].

Pennodd ail ddeddfwriaeth y targedau blynyddol ar gyfer allyriadau'r Alban[33]. Er bod hyn yn debyg i system gyllidebau carbon y DU, sef bod y terfyn ar allyriadau'n cael ei ddefnyddio ar gyfer amserlen benodol, caiff adroddiad ei lunio ar allyriadau bob blwyddyn yn hytrach nag ar gyfer sawl blwyddyn. Cafodd targedau blynyddol eu pennu ar gyfer y cyfnod rhwng 2010 a 2022 yn 2010 a rhwng 2023 a 2027 yn 2011, a bydd casgliadau eraill yn cynnwys pum targed blynyddol (e.e. rhwng 2028 a 2032 ac ati)[34]. Dywedodd Llywodraeth yr Alban:

> Multi-year emissions budgets would provide flexibility within the long-term emissions reduction trajectory. However, annual targets provide greater certainty as to the magnitude of emissions reductions that need to be made at any given time. A large number of the responses to the Bill consultation expressed a preference for annual targets.[35]

Fodd bynnag, yn ystod yr ymgynghoriad ar y Bil Newid yn yr Hinsawdd (yr Alban) cyntaf, tynnwyd sylw'r Pwyllgor Trafnidiaeth, Seilwaith a Newid yn yr Hinsawdd at y ffaith y gall fod llawer iawn o oedi wrth gael gafael ar ddata cywir am allyriadau (hyd at 20 mis), a gall fod angen llawer iawn o adnoddau hefyd[36].

---

[29] *ibid*
[30] ***Y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd (yr Alban)*** [fel ar 5 Mehefin 2014]
[31] Llywodraeth yr Alban, ***Scotland's Action***, (gwefan) [fel ar 5 Mehefin 2014]
[32] *ibid*
[33] *ibid*
[34] ***Y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd (yr Alban)*** [fel ar 5 Mehefin 2014]
[35] Llywodraeth yr Alban (4 Rhagfyr 2008), ***Policy Memorandum: Climate Change Scotland Bill***, wyd mey[fel ar 30 Mehefin 2014]
[36] Senedd yr Alban, y Pwyllgor Trafnidiaeth, Seilwaith a Newid yn yr Hinsawdd, ***Adroddiad Cyfnod 1 ar y Bil Newid yn yr Hinsawdd (yr Alban)***, [fel ar 30 Mehefin 2014]

At hynny, mynegodd rhai ymatebwyr i ymgynghoriad y Pwyllgor bryderon fod targedau blynyddol yn cael eu dylanwadu'n ormodol gan amrywiadau blynyddol a achosir gan y tywydd neu ffactorau anrhagweladwy eraill ac y dylid ffafrio cyllidebau carbon amlflwyddyn gan eu bod yn cynrychioli cyfartaledd effaith yr amrywiadau byrdymor[37].

Mae Llywodraeth yr Alban yn cyhoeddi ei hasesiad blynyddol ar yr allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â chynlluniau cyllideb ddrafft. Mae hyn yn golygu defnyddio model (Dadansoddiad Mewnbwn-Allbwn Amgylcheddol) sy'n amcangyfrif yr allyriadau mewn tunelli o CO2e fesul £1 miliwn o allbwn diwydiannol[38]. Mae hyn yn caniatáu i Lywodraeth yr Alban olrhain allyriadau o ddiwydiannau gwahanol ac amcangyfrif effaith bosibl cyllidebau'r dyfodol o ran carbon.

### Gogledd Iwerddon

Nid oes gan Ogledd Iwerddon system o gyllidebau carbon ar waith. Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi pennu targed i leihau allyriadau o leiaf 35% o gymharu â lefelau 1990 erbyn 2025[39], ac mae pob adran yn gyfrifol ar y cyd am gyrraedd y targed hwn.

Ym mis Mai 2010, sefydlodd y Weithrediaeth weithgor trawsadrannol ar y newid yn yr hinsawdd a chyhoeddwyd Cynllun Gweithredu yn 2011[40] a oedd yn archwilio sut y bydd pob adran yn cyfrannu at y gwaith o gyrraedd y targed cyffredinol ar gyfer lleihau allyriadau yn yr hirdymor[41]. Tynnodd yr adroddiad sylw at y camau sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd ac argymhellwyd meysydd lle mae angen gwella'r ymrwymiadau hyd at 2025[42].

At hynny, yn dilyn canllawiau'r Pwyllgor, mae'r Weithrediaeth wrthi'n datblygu cynigion ar gyfer Deddf Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Gogledd Iwerddon[43]. Nid oes Bil wedi'i gyflwyno eto ac ni wyddir a fydd yn cynnwys mesurau ar gyfer cyllidebau carbon. Fodd bynnag, mewn ymateb i ymgynghoriad sy'n gofyn am farn pobl ar yr angen am Fil Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Gogledd Iwerddon, dywedodd 58% o'r ymatebwyr y dylai targedau interim i leihau allyriadau gael eu cynnwys, ond dywedodd 31% o'r ymatebwyr y dylai targedau interim gael eu cynnwys mewn deddfwriaeth[44].

---

[37] *ibid*
[38] Llywodraeth yr Alban, ***Greenhouse Gas Estimation***, (gwefan) [fel ar 30 Mehefin 2014]
[39] Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon, ***Climate Change***, (gwefan) [fel ar 5 Mehefin 2014]
[40] Gweithgor Trawsadrannol ar Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Chwefror 2011), ***Northern Ireland Greenhouse Gas Emissions Reduction Action Plan***, [fel ar 30 Mehefin 2014]
[41] Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, ***Gogledd Iwerddon***, (gwefan) [fel ar 5 Mehefin 2014]
[42] Gweithgor Trawsadrannol ar Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Chwefror 2011), **Northern Ireland Greenhouse Gas Emissions Reduction Action Plan**, [fel ar 30 Mehefin 2014]
[43] Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, ***Gogledd Iwerddon***, (gwefan) [fel ar 5 Mehefin 2014]
[44] Adran yr Amgylchedd (Mehefin 2013) ***Synopsis of Responses to the Department's pre-consultation seeking views on the need for a Northern Ireland Climate Change Bill***, [fel ar 30 Mehefin 2014]

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **Gyllidebau Carbon**, cysylltwch â **Nia Seaton** (Nia.Seaton@Cymru.gov.uk), y Gwasanaeth Ymchwil.

Gweler hefyd:

– **Gwefan** y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd

– **Gwefan** Llywodraeth y DU, Newid yn yr Hinsawdd

– **Gwefan** Llywodraeth Cymru, Lleihau Allyriadau Cymru

Mae ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar gael ar wefan y Cynulliad: **cynulliadcymru.org/cy/bus-home/research.htm**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@SeneddYmchwil**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@Cymru.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau'r cyhoedd.

**Rhif yr ymholiad: 14/1789**
**Enw'r awdur** Alexander Royan